

Lwfans Cyflogaeth a Chymorth

Ffurflen adnewyddu cais a nodiadau ar sut i wneud cais

Sut i wneud cais

Y ffordd orau i wneud cais yw dros y ffôn.

Cysylltwch â ni ar **0800 012 1888**.

Mae galwadau i rifau 0800 am ddim o linellau daear a ffonau symudol.

Os oes gennych anawsterau ar eich clyw neu'ch lleferydd gallwch gysylltu â ni drwy ddefnyddio ffôn testun ar **0800 023 4888**.

Gallwch ofyn i ffrind neu berthynas neu sefydliadau rydych yn eu hadnabod ac yn ymddiried ynddynt i'ch helpu, neu cysylltwch â'r Ganolfan Byd Gwaith.

Ynglŷn â'r ffurflen hon

Ffurflen adnewyddu cais yw hon ar gyfer Lwfans Cyflogaeth a Chymorth.

- Dylech ond cwblhau'r ffurflen hon os ydych wedi derbyn Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn ystod y 12 wythnos diwethaf.
- Os ydych am wneud cais am Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm nawr, ond na wnaethoch gais o'r blaen, peidiwch â llenwi'r ffurflen hon. Cysylltwch â ni ar **0800 012 1888**
- Peidiwch â defnyddio'r ffurflen hon
 - os ydych wedi newid cyfeiriad, neu
 - os ydych wedi gwahanu oddi wrth eich partner, neu
 - os oes gennych bartner newydd neu wahanol.

Cysylltwch â ni ar **0800 012 1888**.

Darllenwch y nodiadau cyn i chi lenwi'r ffurflen hon. Byddant yn eich helpu i benderfynu beth i'w hawlio.

Cwblhewch y ffurflen hon gydag INC DU ac mewn PRIF LYTHRENAU

jobcentreplus

Department for
Work and Pensions

ESA1(RR)W 10/18

At ein defnydd: Dyddiad cyhoeddi / /

Nodiadau

Beth yw Lwfans Cyflogaeth a Chymorth?

Budd-dal nawdd cymdeithasol yw Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ar gyfer pobl sydd a salwch neu anabledd.

Gallech gael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth os oes gennych salwch neu anabledd, ac rydych:

- yn ddi-waith, **neu'n**
- hunangyflogedig, **neu'n**
- gweithio i gyflogwr ond ni allwch gael Tâl Salwch Statudol, **neu**
- wedi bod yn cael Tâl Salwch Statudol ond mae nawr wedi dod i ben

Mae Tâl Salwch Statudol (SSP) yn arian sy'n cael ei dalu gan gyflogwyr i gyflogai sydd i ffwrdd o'r gwaith am 4 diwrnod neu fwy yn olynol oherwydd eu salwch neu anabledd.

Asesiadau gallu i weithio

Efallai y byddwn yn gofyn i chi gymryd rhan mewn asesiad gallu i weithio. Drwy 'asesiad gallu i weithio' rydym yn golygu:

- llenwi a dychwelyd holiadur, a
- mynd am asesiad meddygol

Byddwn yn cysylltu â chi ynglŷn â hyn. Os na fyddwch yn llenwi'r ffurflen neu gymryd rhan mewn asesiad, efallai y byddwn yn atal eich budd-dal.

Cyfweliadau sy'n canolbwyntio ar waith Efallai byddwn yn gofyn i chi fynychu cyfweliadau sy'n canolbwyntio ar waith a fydd yn eich helpu i ddechre i waith. Byddwn yn cysylltu â chi ynglŷn â rhain. Os na fyddwch yn cymryd rhan yn y cyfweliadau hyn, efallai byddwn yn gostwng eich budd-dal.

Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar gyfraniadau

Mae Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar gyfraniadau yn seiliedig ar faint o Yswiriant Gwladol rydych wedi'i dalu yn ystod y ddwy flwyddyn dreth berthnasol ddiwethaf. Yn gyffredinol ni fydd cyfraniadau hunangyflogedig yn rhoi hawl i chi gael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar gyfraniadau.

Gall Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar gyfraniadau cael ei gyfyngu hyd at uchafswm o 365 diwrnod yn dibynnu ar ganlyniad eich Asesiad Gallu i Weithio.

Mae Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar gyfraniadau yn cael ei dalu ar gyfradd sylfaenol am yr 13 wythnos cyntaf. Yna byddwn yn talu eich budd-dal ar gyfradd sy'n seiliedig ar eich asesiad gallu i weithio. Rydym yn galw'r 13 wythnos cyntaf rydym yn talu eich budd-dal yn eich 'cyfnod asesiad'.

Weithiau ni allwch gael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar gyfraniadau yn seiliedig ar eich cyfraniadau Yswiriant Gwladol y Deyrnas Unedig (DU). Ond efallai y gallwch gael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar gyfraniadau os ydych wedi gweithio y tu allan i'r DU.

Efallai y gallwn ostwng eich Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar gyfraniadau os ydych yn cael:

- budd-daliadau nawdd cymdeithasol eraill
- pensiwn personol neu alwedigaethol
- pensiwn gwasanaeth cyhoeddus

Ni fydd eich cynilion yn effeithio ar eich Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar gyfraniadau.

Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm

Efallai y gallwch gael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm os nad oes gennych ddigon o arian yn dod i mewn.

Gallwch wneud cais am Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm:

- ar eich cyfer chi a'ch partner
- ar gyfer costau tai penodol
- ar gyfer anghenion arbennig. Er enghraifft, os oes gennych chi neu aelod o'ch teulu anabledd

Efallai y byddwn yn gostwng eich Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm os oes gennych chi neu rywun yr ydych yn gwneud cais ar eu cyfer:

- cynilion o dros £6,000
- arian yn dod i mewn bob wythnos. Gallai hyn fod yn
 - enillion o waith rhan amser
 - budd-daliadau nawdd cymdeithasol eraill
 - os oes gennych bartner sy'n gweithio llai na 24 awr yr wythnos a bod ganddynt enillion
 - pensiynau personol neu alwedigaethol

Ni fyddwch yn gymwys i gael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm os yw eich partner yn gweithio mwy na 24 awr yr wythnos neu fod ganddynt gynilion o fwy na £16,000.

Os ydych yn gwneud cais ar gyfer partner

Efallai y byddwn yn gofyn i'ch partner fynd am gyfweliadau sy'n canolbwyntio ar waith. Os y byddwn angen i'ch partner fynd am gyfweliad, byddwn yn cysylltu â hwy ar ôl i chi gael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm am 26 wythnos neu fwy.

Os na fyddant yn cymryd rhan yn y cyfweliadau hyn, gallai effeithio ar eich budd-dal.

Mae 'partner' yn golygu:

- person rydych yn byw gyda hwy sy'n ŵr, gwraig neu bartner sifil i chi, neu
- person rydych yn byw gyda hwy fel petaech yn gwpl priod

Nodiadau parhad

Os ydych wedi gwneud cais am Lwfans Cyflogaeth a Chymorth o'r blaen

Os ydych wedi hawlio Lwfans Cyflogaeth a Chymorth o'r blaen a gwnaethom benderfynu yn ystod eich cais diwethaf eich bod yn gallu gwneud rhyw fath o waith, byddwn yn gofyn i chi ddarparu tystiolaeth i ddangos bod:

- gennych salwch, anabledd neu gyflwr iechyd newydd, neu
- yr effaith sydd gan eich salwch, anabledd neu gyflwr iechyd nawr ar eich gallu i wneud ychydig o waith wedi gwaethygu'n sylweddol ers i ni eich asesu ddiwethaf.

Byddwn yn ceisio cysylltu â chi o fewn y 7 diwrnod nesaf os yw'n bosibl. Bydd hyn naill ai dros y ffôn neu'n ysgrifenedig.

Credyd Treth Plant

Nid yw Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn cynnwys arian ar gyfer plant neu berson ifanc sy'n gymwys. Ond gallwch wneud cais am Credyd Treth Plant. I gael mwy o wybodaeth am Credyd Treth Plant ewch i www.gov.uk/browse/benefits

Gallwch hefyd ffonio Cyllid a Thollau EM ynglŷn â Chredyd Treth Plant ar **0345 300 3900**. Os oes gennych anawsterau ar eich clyw neu'ch lleferydd gallwch gysylltu â hwy drwy ddefnyddio ffôn testun ar **0345 300 3909**.

Mae'r llinellau ar agor o 8am i 8pm o ddydd Llun i ddydd Gwener ac o 8am i 4pm ar ddydd Sadwrn. Mae'r llinellau ar gau ar ddydd Sul, Dydd Nadolig, Gŵyl San Steffan a Dydd Calan.

Os ydych angen help neu ffurflen yn Gymraeg, ffoniwch **0300 200 1900**. Mae'r llinellau ar agor o 8.30am–5pm Ddydd Llun i Ddydd Gwener.

Mae 'plentyn' yn golygu person o dan 16 oed rydych yn cael Budd-dal Plant ar ei gyfer.

Mae 'person ifanc sy'n gymwys' yn golygu person 16, 17, 18 neu 19 oed rydych yn cael Budd-dal Plant ar ei gyfer.

Datganiadau meddygol

Os ydych yn cael Tâl Salwch Statudol, anfonwch eich datganiad meddygol cyfredol gyda'ch cais.

Gelwir 'datganiadau meddygol' hefyd yn dystysgrifau meddygol, yn ddatganiadau meddyg neu nodiadau salwch.

Os nad oes gennych hawl i gael Tâl Salwch Statudol, fel arfer nid oes angen i chi gael datganiad meddygol am y 7 diwrnod cyntaf o'ch salwch neu anabledd. O'r 8fed diwrnod bydd yn rhaid i chi gael datganiad meddygol gan eich meddyg a'i hanfon atom.

Sut mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth

Pan fyddwn yn casglu gwybodaeth amdanoch, gallwn ddefnyddio'r wybodaeth ar gyfer unrhyw un o'n dibenion. Mae'r rhain yn cynnwys delio gyda:

- budd-daliadau a lwfansau nawdd cymdeithasol
- cynhaliaeth plant
- gwaith a hyfforddiant
- cynllunio ariannol ar gyfer ymddeoliad
- cynlluniau pensiwn galwedigaethol a phersonol

Efallai y cawn wybodaeth amdanoch gan eraill am unrhyw un o'n dibenion os yw'r gyfraith yn caniatáu i ni wneud hynny. Efallai y byddwn hefyd yn rhannu gwybodaeth gyda sefydliadau penodol eraill os yw'r gyfraith yn caniatáu i ni wneud hynny.

I gael mwy o wybodaeth am y ffordd rydym yn defnyddio gwybodaeth, ymelwch â'n gwefan www.gov.uk/dwp/personal-information-charter neu gysylltu ag unrhyw un o'n swyddfeydd.

Ein safonau gwasanaeth

Yn y Ganolfan Byd Gwaith ein nod yw darparu safon uchel o wasanaeth i gwsmeriaid bob amser. Gellir dod o hyd i fanylion safon y gwasanaeth y gallwch ei ddisgwyl gennym ar ein gwefan yn www.gov.uk Gallwch gael mynediad i'n gwefan mewn llawer o lyfrgelloedd.

I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â'r Ganolfan Byd Gwaith.

Mwy o wybodaeth

I gael mwy o wybodaeth, gofynnwch am daflen am Lwfans Cyflogaeth a Chymorth gan y Ganolfan Byd Gwaith. Neu ymwelwch â'n gwefan www.gov.uk/browse/benefits

Cyn i chi lenwi'r ffurflen hon

I'n helpu i brosesu eich cais yn gyflymach, atebwch y cwestiynau isod.

a Ydy eich cyfeiriad wedi newid yn ystod y 12 wythnos diwethaf?

Na

Ydy Peidiwch â llenwi'r ffurflen hon. Gofynnwch i ni am ffurflen ESA1W yn lle hynny.

b Ydych chi'n cael unrhyw driniaeth feddygol arbenigol?

Mae 'triniaeth feddygol arbenigol' yn golygu

- dialysis
- radiotherapi
- cemotherapi
- plasmapheresis
- maethiad parenterol llwyr ar gyfer amhariad difrifol o'r weithred enterig.

Na Ewch i gwestiwn c.

Ydw

c Ydych chi wedi'ch cyflogi gan gyflogwr, hyd yn oed os nad ydych yn gweithio ar hyn o bryd?

Na

Ydw Os oes gennych fwy nag un swydd, dywedwch wrthym faint isod

ch Ydy unrhyw un o'ch cyflogwyr wedi rhoi ffurflen **SSP1W** i chi?

Na Gallech gael Tâl Salwch Statudol yn lle Lwfans Cyflogaeth a Chymorth. Gofynnwch wrth eich cyflogwr am Tâl Salwch Statudol **cyn i chi lenwi'r ffurflen hon.**

Ydy Mae'n rhaid i chi anfon ffurflen **SSP1W gwahanol** ar gyfer **pob** swydd rydych yn ei wneud gyda'r ffurflen hon.

Rhan 1: Ynglŷn â'ch cais

Er mwyn eich helpu i benderfynu pa rannau o'r ffurflen i'w llenwi, atebwch y cwestiynau isod a dilynwch y cyfarwyddiadau.

Gwnewch gais am Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn selledig ar incwm os ydych yn credu na allwch gael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm.

- os ydych yn credu na allwch gael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar gyfraniadau
- i gael arian dros eich partner, os yw eich partner yn gweithio llai na 24 awr yr wythnos
- i gael help gyda'ch costau tai, neu
- os oes gennych chi a'ch partner gynilion o £16,000 neu lai.

Ydych chi am wneud cais am Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ?

Ticiwch Ydw os nad ydych yn siŵr.

Os na fyddwch yn gwneud cais am Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm nawr, ond yna yn gofyn amdano yn ddiweddarach, byddwn fel arfer ond yn ei dalu o'r dyddiad diweddarach hwnnw.

Oes gennych bartner?

Mae 'partner' yn golygu

- person rydych yn byw gyda hwy sy'n ŵr, gwraig neu bartner sifil i chi, neu
- person rydych yn byw gyda hwy fel petaech yn gwpl priod.

Ydy eich partner yn cytuno i chi wneud y cais hwn?

Na Llenwch y blychau ateb o dan Chi ar dudalennau 2 i 12. Yna ewch i dudalen 17.

Ydw Mae'n rhaid i chi lenwi'r blychau ateb o dan Chi a Eich partner ar dudalennau 2 i 12. Yna darllenwch y nodiadau ar dudalen 13 a llenwch dudalennau 14 i 23.

Na Ewch i Rhan 2.

Oes Efallai bydd angen i'ch partner fynychu cyfweiliad sy'n canolbwyntio ar waith os ydych yn gwneud cais drostynt.

Na Dylech barhau i roi **cymaint o wybodaeth ag y gallwch** am eich partner. Byddwn yn cysylltu â chi ynglŷn â hyn.

Ydy Efallai bydd angen i'ch partner fynychu cyfweiliad sy'n canolbwyntio ar waith os ydych yn gwneud cais drostynt.

Rhan 2: Amdanoch chi a'ch partner

Cyfenw

Enwau eraill

Unrhyw gyfenwau eraill rydych wedi cael eich adnabod wrthynt

Teitl

Dyddiad geni

Rhif Yswiriant Gwladol (YG)

Gallwch gael hwn o slipiau cyflog neu bapurau treth.

Rhif ffôn symudol

Rhif ffôn yn ystod y dydd, os yw'n wahanol

O ba ddyddiad yr hoffech wneud cais am Lwfans Cyflogaeth a Chymorth?

Bydd angen mwy o wybodaeth arnom os yw'r dyddiad hwn cyn y dyddiad y gwnaethoch gysylltu â ni am y tro cyntaf.

Chi

Mae'n rhaid i **bawb** lenwi'r golofn hon.

 Teitl arall

Llythrennau Rhifau

Llythyren

gwaith cartref

Eich partner

Llenwch y golofn hon os oes gennych bartner ac rydych eisiau gwneud cais am Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm.

 Teitl arall

Llythrennau Rhifau

Llythyren

gwaith cartref

Rhan 2: Amdanoch chi a'ch partner parhad

Beth yw eich statws priodasol neu bartneriaeth sifil?
Ticiwch bob blwch sy'n berthnasol. Os byddwch yn ticio mwy nag un blwch, dywedwch pam wrthym yn Rhan 12 Gwybodaeth arall.

Chi

- Priod neu bartner sifil
- Wedi ysgaru neu bartneriaeth sifil wedi'i diddymu
- Sengl
- Wedi gwahanu
- Yn cydfyw
- Weddw neu bartner sifil wedi goroesi

Dyddiad dod yn weddw neu bartner sifil wedi goroesi

Eich partner

- Priod neu bartner sifil
- Wedi ysgaru neu bartneriaeth sifil wedi'i diddymu
- Sengl
- Wedi gwahanu
- Yn cydfyw
- Weddw neu bartner sifil wedi goroesi

Dyddiad dod yn weddw neu bartner sifil wedi goroesi

Rhan 3: Ynglŷn â'ch salwch neu anabledd

	Chi	Eich partner
Pa ddyddiad gychwynnodd eich salwch neu anabledd?	<input type="text"/>	<input type="text"/>
Rhowch fanylion bras o'ch salwch neu anabledd	<input type="text"/>	<input type="text"/>
Enw'r meddyg sy'n llofnodi eich datganiadau meddygol	<input type="text"/>	<input type="text"/>
Cyfeiriad y meddyg sy'n llofnodi eich datganiadau meddygol	<input type="text"/>	<input type="text"/>
Rhif ffôn y meddyg sy'n llofnodi eich datganiadau meddygol	<input type="text"/>	<input type="text"/>
Ydych chi wedi cael Tâl Salwch Statudol yn ystod yr 8 wythnos diwethaf cyn y cais hwn?	Na <input type="checkbox"/> Ewch i'r cwestiwn nesaf. Ydw <input type="checkbox"/> Anfonwch eich datganiad meddygol presennol atom. Ewch i'r dudalen nesaf.	
Oes gennych chi hawl i Dâl Salwch Statudol? Gofynnwch i'ch cyflogwr os nad ydych yn siŵr.	Na <input type="checkbox"/> Gofynnwch i'ch meddyg am datganiad meddygol o'r 8fed diwrnod o'ch salwch neu anabledd, a'i hanfon atom. Oes <input type="checkbox"/>	

Rhan 3: Ynglŷn â'ch salwch neu anabledd parhad

Ydych chi wedi bod yn yr ysbyty fel claf mewnol ers i'ch salwch neu anabledd gychwyn?

Enw a chyfeiriad yr ysbyty

Dyddiad aethoch i mewn i'r ysbyty

Ydych chi wedi dod allan o'r ysbyty?

Ydych chi'n disgwyl i fynd i mewn i'r ysbyty o fewn y 3 mis nesaf?

Chi

Na

Do Dywedwch wrthym am hyn isod.

Na

Do Dyddiad y daethoch allan o'r ysbyty

Na

Ydw Dyddiad rydych yn disgwyl mynd i'r ysbyty

Eich partner

Na

Do Dywedwch wrthym am hyn isod.

Na

Do Dyddiad y daethant allan o'r ysbyty

Na

Ydy Dyddiad y disgwylir iddynt fynd i'r ysbyty

Rhan 4: Rheolau arbennig

Mae rheolau arbennig yn berthnasol i bobl nad oes disgwyl iddynt fyw mwy na 6 mis oherwydd eu salwch.

Os byddwch yn gwneud cais o dan y rheolau arbennig, byddwch yn gallu cael eich budd-dal yn gyflymach ac yn rhwyddach.

Ydych chi'n credu bod y rheolau arbennig yn berthnasol i chi?

Ydych chi wedi gofyn am **Adroddiad DS1500** yn barod ar gyfer eich cais am Lwfans Byw i'r Anabl neu Daliad Annibyniaeth Personol?

Ydych chi wedi anfon eich **Adroddiad DS1500** yn barod gyda'ch cais am Lwfans Byw i'r Anabl neu Daliad Annibyniaeth Personol?

Chi

Na Ewch i Rhan 5 Ynglŷn â gwaith.

Ydw Gofynnwch wrth eich meddyg neu arbenigwr am **Adroddiad DS1500**.

Mae'r **Adroddiad DS1500** yn adroddiad am eich cyflwr meddygol. Ni fydd yn rhaid i chi dalu amdano.

Gallwch ofyn i dderbynydd eich meddyg, neu nyrs neu weithiwr cymdeithasol i drefnu hyn i chi. Nid oes rhaid i chi weld y meddyg. Dylech gael yr **Adroddiad DS1500** yn syth. Gofynnwch am yr adroddiad mewn amlen wedi'i selio os nad ydych am i neb ei weld.

Os na allwch gael eich **Adroddiad DS1500** mewn pryd, dylech wneud cais am Lwfans Cyflogaeth a Chymorth beth bynnag. Yna rhowch yr **Adroddiad DS1500** i ni cyn gynted ag y gallwch.

Na

Do Nid oes angen i chi gael **Adroddiad DS1500** arall. Anfonwch yr **Adroddiad DS1500** gyda'ch cais am Lwfans Byw i'r Anabl neu Daliad Annibyniaeth Personol.

Na

Ydw

Rhan 5: Ynglŷn â gwaith: Mae angen i ni wybod am waith a wnaethoch yn ystod y 12 wythnos diwethaf

- waith i gyflogwr neu waith hunangyflogedig
- gwaith llawn amser neu ran amser
- gwaith parhaol neu waith achlysurol
- gwaith di-dâl neu waith cyflogedig
- gwaith fel cyfarwyddwr cwmni
- amser a dreulwyd ar Hyfforddiant yn Seiliedig ar Waith i Bobl Ifanc, neu Skillseekers (Yr Alban).

Ydych chi wedi gweithio yn y 12 wythnos diwethaf?
Os gwnaethoch chi waith gwirfoddol neu os ydych chi'n absennol o'r gwaith dros dro, ticiwch ydw a dywedwch wrthym pryd rydych chi'n gweithio fel arfer.

Dyddiad y dechreuodd y gwaith

Os nad ydych yn gweithio mwyach, dyddiad olaf i chi weithio

Nifer yr oriau'r wythnos y byddwch yn eu gweithio fel arfer

Nifer o ddyddiau yr wythnos rydych yn eu gweithio fel arfer

Nifer o oriau yr wythnos rydych yn eu gweithio ar hyn o bryd

Nifer o ddyddiau yr wythnos rydych yn eu gweithio ar hyn o bryd

Enw'r cyflogwr

Cyfeiriad y cyflogwr

Rhif ffôn y cyflogwr

Teitl y swydd

Rhif cloc, cyflogres neu gyflogai

Chi

Na Anfonwch eich P45 atom.
Ewch i Rhan 6 Ynglŷn â'r amser rydych wedi ei dreulio dramor.

Ydw Dywedwch wrthym am hyn isod. Os oedd hyn yn waith â thâl, darparwch y 5 slip cyflog wythnosol diwethaf neu 2 slip cyflog misol diwethaf.

Eich partner

Na Ewch i Rhan 6 Ynglŷn â'r amser rydych wedi ei dreulio dramor.

Ydy Dywedwch wrthym am hyn isod. Os oedd hyn yn waith â thâl, darparwch y 5 slip cyflog wythnosol diwethaf neu 2 slip cyflog misol diwethaf.

Rhan 5: Ynglŷn â gwaith parhad

<p>Ydych chi wedi bod yn hunangyflogedig neu'n is-gontractiwr yn ystod y 12 wythnos diwethaf?</p>	<p>Chi</p> <p>Na <input type="checkbox"/></p> <p>Ydw <input type="checkbox"/> Byddwn yn anfon ffurflen B16W i'w llenwi a'i dychwelyd atom.</p>	<p>Eich partner</p> <p>Na <input type="checkbox"/></p> <p>Ydy <input type="checkbox"/> Byddwn yn anfon ffurflen B16W i'w llenwi a'i dychwelyd atom.</p>
<p>Ydych chi wedi dechrau cael Credyd Dychwelyd i'r Gwaith yn ystod y 12 wythnos diwethaf?</p>	<p>Na <input type="checkbox"/></p> <p>Ydw <input type="checkbox"/> Dyddiad y taliad olaf.</p> <p><input type="text"/></p>	<p>Na <input type="checkbox"/></p> <p>Ydy <input type="checkbox"/> Dyddiad y taliad olaf.</p> <p><input type="text"/></p>
<p>Ydych chi wedi dechrau cael Credyd Mewn Gwaith yn ystod y 12 wythnos diwethaf?</p>	<p>Na <input type="checkbox"/></p> <p>Ydw <input type="checkbox"/> Dyddiad y taliad olaf.</p> <p><input type="text"/></p>	<p>Na <input type="checkbox"/></p> <p>Ydy <input type="checkbox"/> Dyddiad y taliad olaf.</p> <p><input type="text"/></p>
<p>Oedd gennych chi swydd am y cyfan o'r 12 wythnos diwethaf?</p> <p>Os Na, defnyddiwch y gofod isod i ddweud wrthym sut roeddech yn cynnal eich hun.</p>	<p>Na <input type="checkbox"/> Dywedwch wrthym isod sut oeddech yn cynnal eich hun pan nad oeddech yn gweithio.</p> <p>Oedd <input type="checkbox"/></p> <p><input type="text"/></p>	<p>Na <input type="checkbox"/> Dywedwch wrthym isod sut gwnaethant gynnal eu hun pan nad oeddent yn gweithio.</p> <p>Oedd <input type="checkbox"/></p> <p><input type="text"/></p>

Rhan 5: Ynglŷn â gwaith parhad

Ydych chi'n gwybod pryd fyddwch chi yn ddigon iach i weithio eto?

Ydych chi'n dychwelyd i'r gwaith?

Wnaethoch chi weithio sifft nos oedd yn cynnwys hanner nos ar y dyddiad y gweithioch ddiwethaf?

Pa ddyddiad ac amser wnaethoch chi dechrau'r sifft?

Pa ddyddiad ac amser wnaethoch chi orffen y sifft?

Fyddwch chi'n dychwelyd i'r gwaith ar sifft nos sydd yn cynnwys hanner nos?

Pa ddyddiad ac amser fyddwch chi'n dechrau'r sifft?

Pa ddyddiad ac amser fyddwch chi'n gorffen y sifft?

Chi

Na

Ydw Dywedwch wrthym pryd fyddwch yn ddigon iach i weithio.

Na

Ydw Pa ddyddiad fyddwch chi'n dychwelyd i'r gwaith?

Na

Do Dywedwch wrthym am hyn isod.

 am am/pm am am/pm

Na

Byddaf Dywedwch wrthym am hyn isod.

 am am/pm am am/pm

Os oes gennych fwy nag un cyflogwr, dywedwch wrthym amdanynt yn Rhan 12 Gwybodaeth arall.

Rhan 6: Ynglŷn â'r amser rydych wedi ei dreulio dramor

Ydych chi wedi

- gweithio neu wedi gwneud cais am fudd-dal y tu allan i'r Deyrnas Unedig yn ystod y 5 mlynedd ddiwethaf, neu
- wedi bod yn aelod, neu yn aelod o deulu Lluoedd Arfog EM y tu allan i'r Deyrnas Unedig yn ystod y 12 wythnos ddiwethaf?

Rydym yn defnyddio'r term 'Deyrnas Unedig' i olygu Cymru, Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon.

I ba wlad a aethoch a phryd?

Ticiwch y blychau sy'n disgrifio'r hyn a wnaethoch pan oeddech chi dramor.

Oeddech chi dramor oherwydd roedd rhywun yn eich teulu yn rhan o Luoedd Arfog EM?

Beth yw eu perthynas â chi?
Er enghraifft, eich tad neu fam.

Chi

Na

Do

Gwlad

O

I

Gwlad

O

I

Cael eich cyflogi gan gyflogwr tramor

Hunangyflogedig

Cael eich cyflogi gan gyflogwr o'r DU

Gwneud cais am fudd-dal tramor

Gwneud cais am fudd-dal y DU dramor

Aelod o Luoedd Arfog EM

Na

Oeddwn

Eich partner

Na

Do

Gwlad

O

I

Gwlad

O

I

Cael eich cyflogi gan gyflogwr tramor

Hunangyflogedig

Cael eich cyflogi gan gyflogwr o'r DU

Gwneud cais am fudd-dal tramor

Gwneud cais am fudd-dal y DU dramor

Aelod o Luoedd Arfog EM

Na

Oedd

Rhan 7: Lle rydych yn byw

Ydych chi wedi gwneud cais am Fudd-dal Tai neu ostyngiad mewn Treth Cyngor o'r blaen?

Chi

Na Ewch i Rhan 8 Ynglŷn â gwaith rhan amser, budd-daliadau, addysg ac hyffordiant.

Ydw Cysylltwch â'ch cyngor lleol i gael rhagor o wybodaeth ar sut i wneud cais am Fudd-dal Tai neu ostyngiad mewn Treth Cyngor. Ni fydd hyn yn effeithio ar faint o Lwfans Cymorth a Chyflogaeth y byddwch yn ei gael.

Eich partner

Na Ewch i Rhan 8 Ynglŷn â gwaith rhan amser, budd-daliadau, addysg ac hyffordiant.

Ydy Cysylltwch â'ch cyngor lleol i gael rhagor o wybodaeth ar sut i wneud cais am Fudd-dal Tai neu ostyngiad mewn Treth Cyngor. Ni fydd hyn yn effeithio ar faint o Lwfans Cymorth a Chyflogaeth y byddwch yn ei gael.

Rhan 8: Ynglŷn â gwaith rhan amser, budd-daliadau, addysg ac hyfforddiant

A fu unrhyw newidiadau yn unrhyw un o'r hyn rydym wedi eu rhestru isod yn ystod y 12 wythnos diwethaf?

Os ydych yn ansicr, gofynnwch i ni.

- Eich gwaith rhan amser
- Eich incwm o bensiwn
- Eich budd-daliadau nawdd cymdeithasol
- Eich cyrsiau addysg neu hyfforddiant

Os gwnaethoch dicio **Do** i unrhyw un o'r cwestiynau ar y dudalen hon, rhowch wybod i ni am y newidiadau yma.

Os ydych angen mwy o le, defnyddiwch **Rhan 12 Gwybodaeth arall**.

Anfonwch dystiolaeth atom o unrhyw newidiadau. Mae hyn yn cynnwys pethau fel slipiau cyflog, cyfriflenni pensiwn, llythyrau sy'n rhoi manylion unrhyw gyrsiau hyfforddi neu fudd-daliadau nawdd cymdeithasol.

Chi

Na

Do Dywedwch wrthym am y newidiadau isod.

Na

Do Dywedwch wrthym am y newidiadau isod.

Na

Do Dywedwch wrthym am y newidiadau isod.

Na

Do Dywedwch wrthym am y newidiadau isod.

Eich partner

Na

Do Dywedwch wrthym am y newidiadau isod.

Na

Do Dywedwch wrthym am y newidiadau isod.

Na

Do Dywedwch wrthym am y newidiadau isod.

Na

Do Dywedwch wrthym am y newidiadau isod.

Os ydych yn gwneud cais am Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar gyfraniadau

Os ydych yn siŵr nad ydych am wneud cais am Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm, ewch i **Rhan 11 Sut rydym yn eich talu**.

Os nad ydych yn siŵr, darllenwch y **Nodiadau** ar flaen y ffurflen hon i'ch helpu i benderfynu.

Os byddwch yn dal i fod yn ansicr, gwnewch gais am Lwfans Ceisio Gwaith beth bynnag. Atebwch yr holl gwestiynau yn **Rhan 9** a **Rhan 10** y ffurflen sy'n berthnasol i chi a'ch partner, os oes gennych un.

Os na fyddwch yn gwneud cais am Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm nawr, ond yna yn gofyn amdano yn ddiweddarach, byddwn fel arfer ond yn ei dalu o'r dyddiad diweddarach hwnnw.

Os ydych yn gwneud cais am Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm

Os rhoddwyd tic ym mlwch Ydw ar **dudalen 1** i wneud cais am Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm, mae angen mwy o wybodaeth arnom. Ewch i **Rhan 9 Newidiadau eraill mae'n rhaid i chi ddweud wrthym amdanynt** ar y dudalen nesaf.

Atebwch yr holl gwestiynau yn **Rhan 9** a **Rhan 10** y ffurflen sy'n berthnasol i chi a'ch partner, os oes gennych un.

Rhan 9: Newidiadau eraill mae'n rhaid i chi ddweud wrthym amdanynt

A fu unrhyw newidiadau yn unrhyw un o'r hyn rydym wedi eu rhestru isod yn ystod y 12 wythnos diwethaf?
Os ydych yn ansicr, gofynnwch i ni.

Plant neu bobl ifanc sy'n gymwys a gynhwyswyd ar eich ffurflen gais ddiwethaf.

Cyfrifon banc a chymdeithas adeiladu, cynilion ac eiddo rydych chi, eich partner neu unrhyw blant neu bobl ifanc sy'n gymwys yn eich cartref, yn berchen arnynt. Mae cynilion hefyd yn golygu stocioau a chyfranddaliadau.

Arian sy'n dod i mewn ar eich cyfer chi neu eich partner, os oes gennych un, neu unrhyw blant neu bobl ifanc sy'n gymwys rydych wedi ei ddweud wrthym ar eich ffurflen gais ddiwethaf. Mae arian sy'n dod i mewn yn cynnwys taliadau cynhaliath, Credyd Treth Gwaith a Chredyd Treth Plant.

Arian a delir gan rywun arall ar eich rhan neu eich partner neu unrhyw blant neu bobl ifanc sy'n gymwys rydych wedi ei ddweud wrthym ar eich ffurflen gais ddiwethaf.

Arian sy'n ddyledus i chi neu eich partner, os oes gennych un, neu unrhyw blant neu bobl ifanc sy'n gymwys rydych wedi ei ddweud wrthym ar eich ffurflen gais ddiwethaf.

Arian neu eiddo, yn y wlad hon neu dramor, sy'n berchen i rywun arall. Mae hyn yn cynnwys pethau fel cyfrifon banc a buddsoddiadau.

Manylion **unrhyw un sy'n byw yn eich cartref**, yn cynnwys unrhyw arian sydd gan y bobl hyn yn dod i mewn.

Y costau sy'n ymwneud â'ch cartref.

Mae hyn yn cynnwys costau morgais, tâl am wasanaethau a rhent tir.

Na

Do Dywedwch wrthym am y newidiadau isod.

Na

Do Dywedwch wrthym am y newidiadau isod.

Na

Do Dywedwch wrthym am y newidiadau isod.

Na

Do Dywedwch wrthym am y newidiadau isod.

Na

Do Dywedwch wrthym am y newidiadau isod.

Na

Do Dywedwch wrthym am y newidiadau isod.

Na

Do Dywedwch wrthym am y newidiadau isod.

Na

Do Dywedwch wrthym am y newidiadau isod.

Os gwnaethoch dicio **Do** i unrhyw un o'r cwestiynau ar y dudalen hon, dywedwch wrthym am y newidiadau yma. Os ydych angen mwy o le, defnyddiwch **Rhan 12 Gwybodaeth arall.** Anfonwch dystiolaeth atom o unrhyw newidiadau.

Rhan 10: Amgylchiadau arbennig

Ydych chi wedi gwahanu oddi wrth rywun oedd yn arfer bod yn bartner i chi yn y 12 wythnos diwethaf?

Os ydych angen dweud wrthym am fwy nag un person, dywedwch wrthym amdanynt yn Rhan 12 Gwybodaeth arall.

Cyfenw

Enwau eraill

Cyfeiriad

Dyddiad geni

Rhif Yswiriant Gwladol (YG), os ydych yn ei wybod

Pryd y gwnaethoch wahanu?

Ai gwahaniad dros dro yw hwn?

Ydy'r person hyn wedi mynd dramor?

Chi

Na Ewch i Rhan 11 Sut Rydym yn eich talu.

Do Dywedwch wrthym am hyn isod.

Llythrennau Rhifau

Llythyren

Na

Ie Dywedwch wrthym am hyn isod.
Er enghraifft, y rheswm dros y gwahaniad ac am ba hyd rydych yn disgwyl iddo barhau.

Na

Ydy Ydynt wedi mynd dramor yn barhaol?

Na

Ydy

Eich partner

Na Ewch i Rhan 11 Sut Rydym yn eich talu.

Do Dywedwch wrthym am hyn isod.

Llythrennau Rhifau

Llythyren

Na

Ie Dywedwch wrthym am hyn isod.
Er enghraifft, y rheswm dros y gwahaniad ac am ba hyd rydych yn disgwyl iddo barhau.

Na

Ydy Ydynt wedi mynd dramor yn barhaol?

Na

Ydy

Rhan 10: Amgylchiadau arbennig parhad

A fydd y person a arferai fod yn eich partner yn parhau i dalu unrhyw beth tuag at y rhent neu forgais, neu tuag at unrhyw filiau cartref?

Na
Bydd Dywedwch wrthym am hyn isod.

Ar gyfer beth yw'r taliad hwn?

Taliad 1	Taliad 2	Taliad 3	Taliad 4
<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>

Faint ydych yn disgwyl ei dderbyn?

<input type="text"/> £	<input type="text"/> £	<input type="text"/> £	<input type="text"/> £
------------------------	------------------------	------------------------	------------------------

Pryd y cewch y taliad hwn?

<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>
----------------------	----------------------	----------------------	----------------------

Pa mor aml fydd hwn yn cael ei dalu?

<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>
----------------------	----------------------	----------------------	----------------------

Os ydych angen dweud wrthym am fwy o daliadau, rhowch wybod i ni yn Rhan 12 Gwybodaeth arall.

Os yw'r person a arferai fod yn eich partner yn parhau i dalu tuag at eich morgais, i bwy fyddant yn gwneud y taliadau?

I chi
 Yn uniongyrchol i'ch benthyciwr

Ydy'r person a arferai fod yn eich partner wedi rhoi'r gorau i dalu arian i chi?

Na
Ydy Dywedwch wrthym am y taliad olaf a gawsoch.

Ar gyfer beth oedd y taliad hwn?

Faint a dderbynioch?

 £

Pryd gafodd hwn ei dalu?

Ydych chi neu'ch partner yn frodor o'r DU?

Chi	Eich partner
Na <input type="checkbox"/>	Na <input type="checkbox"/>
Ydw <input type="checkbox"/>	Ydy <input type="checkbox"/>

Rhan 11: Sut rydym yn eich talu

Ydym erioed wedi talu arian i'r cyfrif hwn o'r blaen?

Na Darllenwch y nodiadau a dywedwch wrthym am y cyfrif rydych am ei ddefnyddio ar y dudalen nesaf.

Do Ydych chi am i ni dalu eich arian i'r un cyfrif?

Na Darllenwch y nodiadau a dywedwch wrthym am y cyfrif rydych am ei ddefnyddio ar y dudalen nesaf.

Ydw Ewch i Rhan 12 Gwybodaeth arall.

Fel arfer byddwn yn talu eich arian i mewn i gyfrif.

Bydd nifer o fanciau a chymdeithasau adeiladu yn eich caniatáu i gasglu eich arian mewn swyddfeydd post.

Byddwn yn dweud wrthyfych pan fyddwn yn gwneud y taliad cyntaf a faint ydyw. Byddwn yn dweud wrthyfych os bydd newid yn y swm y byddwn yn ei dalu i mewn i'r cyfrif.

Cael gwybod faint rydym wedi'i dalu i mewn i'r cyfrif

Gallwch wirio eich taliadau ar gyfriflenni cyfrif. Efallai bydd y cyfriflenni yn dangos eich rhif Yswiriant Gwladol (YG) wrth ymyl unrhyw daliadau rydym wedi eu gwneud. Os credwch fod taliad yn anghywir, cysylltwch â'r swyddfa sy'n eich talu ar unwaith.

Os byddwn yn talu gormod o arian i chi

Os byddwn yn talu gormod o arian i chi mae gennym yr hawl i adennill unrhyw arian a dalwyd nad oes gennych hawl i'w gael. Gallai hyn fod oherwydd y ffordd y mae'r system ar gyfer taliadau yn gweithredu.

Er enghraifft, efallai y byddwch yn rhoi gwybodaeth i ni, sy'n golygu bod hawl gennych i gael llai o arian. Weithiau ni allwn newid y swm rydym wedi'i dalu i chi eisoes. Golyga hyn y byddwn wedi talu arian i chi nad oes gennych hawl i'w gael.

Byddwn yn cysylltu â chi cyn y byddwn yn adennill unrhyw arian.

Beth i'wneud nawr

- Dywedwch wrthym am y cyfrif yr ydych yn dymuno ei ddefnyddio ar y dudalen nesaf. Drwy roi manylion eich cyfrif i ni rydych
 - yn cytuno y byddwn yn talu i mewn i'ch cyfrif, ac
 - yn deall yr hyn rydym wedi ei ddweud wrthyfych uchod yn yr adran **Os byddwn yn talu gormod o arian i chi**
- Os ydych yn bwriadu agor cyfrif, rhowch fanylion eich cyfrif i ni cyn gynted â'u bod gennych.
- Os nad oes gennych gyfrif, cysylltwch â ni a byddwn yn rhoi mwy o wybodaeth i chi.

Cwblhewch gweddill y ffurflen hon. Nid oes rhaid i chi aros nes eich bod wedi agor cyfrif neu gysylltu â ni.

Ynglŷn â'r cyfrif rydych am ei ddefnyddio

- Gallwch ddefnyddio cyfrif yn eich enw chi neu gyfrif ar y cyd.
- Gallwch ddefnyddio cyfrif rhywun arall os:
 - bydd termau ac amodau eu cyfrif yn caniatáu hyn, a
 - byddant yn eich caniatáu i ddefnyddio eu cyfrif, a
 - rydych yn sicr y byddant yn defnyddio eich arian yn y ffordd rydych yn ei ddweud wrthynt
- Gallwch ddefnyddio cyfrif undeb credyd. Mae'n rhaid i chi ddarparu manylion cyfrif yr undeb credyd i ni. Gall eich undeb credyd eich helpu gyda hyn.
- Os ydych yn benodai neu'n gynrychiolydd cyfreithiol sy'n gweithredu ar ran yr hawliwr, dylai'r cyfrif fod yn eich enw chi yn unig.

Rhowch fanylion eich cyfrif isod.

Mae'n bwysig iawn eich bod yn llenwi pob blwch yn gywir gan gynnwys rhif rôl neu gyfeirnod y gymdeithas adeiladu os oes gennych un. Os rhowch y manylion anghywir am eich cyfrif i ni, efallai bydd oedi gyda'ch taliadau neu y gallwch golli arian.

Gallwch ddod o hyd i fanylion y cyfrif ar eich llyfr siec neu'ch cyfriflenni banc. Os nad ydych yn siŵr am y manylion, gofynnwch i'r banc neu'r cymdeithas adeiladu.

Enw deiliad y cyfrif

Ysgrifennwch enw deiliad y cyfrif yn union fel y mae i'w weld ar y llyfr siec neu gyfriflen.

Enw llawn y banc neu gymdeithas adeiladu

Cod didoli

Rhowch bob un o'r chwe rhif, er enghraifft: 123456.

--	--	--	--	--	--	--	--	--	--

Rhif y cyfrif

Mae rhifau cyfrifon fel arfer yn 8 rhif o hyd. Os oes gan eich cyfrif llai na 10 rhif, llenwch y rhifau o'r ochr chwith.

--	--	--	--	--	--	--	--	--	--	--	--	--	--	--	--	--	--

Rhif rôl neu gyfeirnod y gymdeithas adeiladu

Os ydych yn defnyddio cyfrif cymdeithas adeiladu efallai y bydd yn rhaid i chi ddweud wrthym y rhif rôl neu gyfeirnod. Gall y rhain gynnwys llythrennau a rhifau a gall fod hyd at 18 nod o hyd. Os ydych yn ansicr p'un a oes gan y cyfrif rif rôl neu gyfeirnod, gofynnwch i'r gymdeithas adeiladu.

Efallai eich bod yn cael budd-daliadau a hawliadau eraill nid ydym yn eu talu i mewn i gyfrif. Os hoffech i ni dalu hwy i'r cyfrif uchod, ticiwch y blwch hwn.

Rhan 12: Gwybodaeth arall

Defnyddiwch y gofod hwn i nodi unrhyw beth arall y teimlwch y gallai fod angen i ni wybod.

Gallwch barhau ar ddalen o bapur ar wahân, os oes angen. Gwnewch yn siŵr eich bod:

- yn dweud wrthym am bwy mae'r wybodaeth, **ac**
- yn rhoi eich enw llawn a rhif Yswiriant Gwladol ar bob dalen o bapur, **ac**
- yn llofnodi a dyddio pob dalen rydych yn ei ddefnyddio

Rhan 13: Llenwi'r ffurflen ar ran rhywun arall

Ydych chi'n llenwi'r ffurflen ar ran rhywun arall?

Na Ewch i Rhan 14 Datganiad.

Ydw Dywedwch wrthym amdanoch eich hun isod.

Cyfenw

Enwau eraill

Unrhyw gyfenwau eraill rydych wedi cael eich adnabod wrthynt

Teitl

 Teitl arall

Dyddiad geni

Llythrennau Rhifau

Llythyren

Rhif Yswiriant Gwladol (YG)

Gallwch gael hwn o slipiau cyflog neu bapurau treth.

Cyfeiriad

Rhif ffôn symudol

Rhif ffôn yn ystod y dydd, os yw'n wahanol

gwaith cartref symudol

Rhan 13: Llenwi'r ffurflen ar ran rhywun arall parhad

Ydych chi'n llofnodi'r ffurflen hon ar ran rhywun arall?

Na Ewch i Rhan 14 Datganiad.

Ydw Er y gallwch lenwi'r ffurflen hon ar ran oedolyn arall, mae'n rhaid iddynt hefyd lofnodi eu hunain oni bai bod un neu fwy o'r canlynol yn berthnasol.
Ticiwch bob blwch sy'n berthnasol.

Rwyf yn llofnodi'r ffurflen hon ar eu rhan oherwydd

Mae gennyf Bŵer Atwrnai ar eu rhan.

Dylech anfon eich dogfen pŵer atwrnai neu gopi ardystiedig gyda'r ffurflen gais hon. Cofiwch lofnodi'r **Datganiad yn Rhan 14**.

Rwy'n dderbynnnydd neu ddirprwy ar eu rhan o dan Orchymyn y Llys Gwarchod, neu yn Yr Alban, rwyf yn diwtor, curador neu warcheidwad a benodwyd yn nhermau'r gyfraith.

Dylech anfon y ddogfen berthnasol neu gopi ardystiedig gyda'r ffurflen gais hon. Cofiwch lofnodi'r **Datganiad yn Rhan 14**.

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau eisoes wedi fy mhenodi i gael eu budd-daliadau ac i ddelio gyda llythyrau am eu budd-daliadau.

Byddwn yn anfon pob llythyr am y cais hwn yn syth atoch chi.

Ni allant ofalu am eu materion eu hunain oherwydd salwch meddwl neu anabledd dysgu.

Byddwn yn cysylltu â chi am hyn. Efallai bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau yn eich penodi i gael eu budd-daliadau ac i ddelio â llythyrau am eu budd-daliadau.

Maent mor sâl neu anabl nes ei bod yn amhosibl iddynt lofnodi eu hunan.

Byddwn yn cysylltu â chi am hyn.

Os nad yw'r person yn gwybod eich bod yn llofnodi'r ffurflen hon ar eu rhan, dywedwch wrthym pam.

Rhan 14: Datganiad

Darllenwch y **Nodiadau** ar flaen y ffurflen hon a'r testun isod.
Yna llofnodwch y ffurflen ar waelod y dudalen hon.

- Rwyf yn datgan fy mod wedi darllen ac yn deall y nodiadau ar flaen y ffurflen hon, bod y wybodaeth a ddarperir ar y ffurflen hon yn gywir ac yn gyflawn a fy mod wedi cynnwys fy holl incwm a chynilion.
- Rwyf yn deall bod yn rhaid i mi roi gwybod ar unwaith am bob newid yn fy amgylchiadau a allai effeithio ar fy hawl, a thrwy fethu â gwneud hynny gellir fy erlyn neu wynebu cosb ariannol. Byddaf yn ffonio 0800 012 1888 neu'n ysgrifennu at y swyddfa sy'n talu fy mudd-dal i roi gwybod am unrhyw newid yn fy amgylchiadau.
- Os byddaf yn rhoi gwybodaeth anghywir neu anghyflawn neu fethu â rhoi gwybod am newidiadau yn fy amgylchiadau ar unwaith, rwyf yn deall y gellir atal neu leihau fy Lwfans Cyflogaeth a Chymorth a gellir adennill unrhyw ordaliad. Yn ogystal, gellir fy erlyn neu wynebu cosb ariannol.
- Rwyf yn cytuno y gall
 - yr Adran Gwaith a Phensiynau
 - unrhyw weithiwr gofal iechyd proffesiynol cymeradwy sy'n cynghori'r Adran
 - unrhyw sefydliad sydd â chontract gyda'r Adran ar gyfer darparu gwasanaethau asesiad ofyn i unrhyw berson neu sefydliad y cyfeirir atynt ar y ffurflen hon am unrhyw wybodaeth sydd ei hangen i ymdrin â'r
 - cais hwn am fudd-dal, neu
 - unrhyw gais i edrych eto ar y cais hwnac y gellir rhoi'r wybodaeth i'r gweithiwr gofal iechyd proffesiynol cymeradwy neu'r sefydliad hwnnw neu i'r Adran.
- Rwyf hefyd yn deall y gall yr Adran ddefnyddio'r wybodaeth sydd ganddi nawr neu y gallai ei chael yn y dyfodol er mwyn penderfynu p'un a oes gennyf hawl i gael
 - y budd-dal rwyf yn gwneud cais amdano
 - unrhyw fudd-dal arall rwyf wedi gwneud cais amdano
 - unrhyw fudd-dal arall y gallaf wneud cais amdano neu ei gael yn y dyfodol.
- Rwyf yn cytuno bod fy meddyg, neu unrhyw feddyg sydd wedi fy nhrin, yn cael gwybod am benderfyniad yr Ysgrifennydd Gwladol ar
 - gallu cyfyngedig i weithio
 - gallu cyfyngedig ar gyfer gweithgaredd sy'n gysylltiedig â gwaith, neu'r
 - ddau.

Dyma fy nghais am Lwfans Cyflogaeth a Chymorth.

Llofnod

Dyddiad

Ticiwch y blwch hwn os oes rhywun wedi llenwi'r ffurflen hon ar eich rhan.

Rhan 15: Beth i'w wneud nawr

Gwiriwch

eich bod wedi ateb yr holl gwestiynau ar y ffurflen hon sy'n berthnasol i chi a'ch partner, os oes gennych un.

Gwiriwch

eich bod wedi rhoi HOLL fanylion eich cyfrif yn **Rhan 11 Sut rydym yn eich talu** os ydych am gael eich talu yn uniongyrchol i'ch cyfrif.

Gwiriwch

eich bod wedi llofnodi a dyddio'r ffurflen hon.

Gwiriwch

eich bod wedi anfon yr holl ddogfennau rydym wedi gofyn amdanynt. Defnyddiwch y rhestr wirio isod.

Prawf o bwy ydych

Mae'n bwysig ein bod yn siŵr o bwy ydych pan fyddwch yn gwneud cais am Lwfans Cyflogaeth a Chymorth. Efallai y bydd angen i ni ofyn mwy o gwestiynau am hyn. Efallai y bydd angen i ni weld dogfennau swyddogol sy'n profi pwy ydych hefyd.

Nid yw rhif Yswiriant Gwladol yn brawf o bwy ydych.

Hyd yn oed os nad ydy'r holl ddogfennau rydym yn gofyn amdanynt gennych, **anfonwch y ffurflen hon yn ôl atom yn syth**. Anfonwch y dogfennau sydd ddim gennych yn hwyrach ymlaen.

Efallai y byddwch yn colli budd-dal os na fyddwch yn darparu dogfennau gwreiddiol o fewn mis i'r dyddiad yr anfonwyd y ffurflen hon atoch.

Chi	Eich partner		Chi	Eich partner		Chi	Eich partner	
<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Ffurflen gais Y ffurflen gais Lwfans Cyflogaeth a Chymorth hon.	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Ynglŷn ag arian Prawf o unrhyw gynilion dros £5,500 yn cynnwys unrhyw dystysgrifau cyfranddaliadau.	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Ynglŷn â salwch neu anabledd Datganiadau Ffitrwydd i Weithio.
<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>		<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Prawf o unrhyw gynilion dros £9,500, os ydych chi neu'ch partner yn byw mewn cartref gofal.	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Ffurflen SSP1W.
<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>		<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Prawf o unrhyw incwm o bensiwn rydych wedi dweud wrthym amdano.	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Adroddiad DS1500.
<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>		<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Prawf o unrhyw daliadau gan bolisi credyd yswiriant.	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Ynglŷn â gwaith, addysg neu hyfforddiant Y 5 slip cyflog wythnosol neu 2 slip cyflog misol diwethaf, os ydych chi a'ch partner yn parhau i weithio.
<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>		<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Unrhyw brawf arall rydym wedi gofyn amdano ynglŷn ag arian arall sy'n dod i mewn.	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Ffurflen P45.
<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>		<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>		<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Papurau rhyddhau os ydych newydd adael Lluoedd Arfog EM.

Rhan 16: Ble i anfon eich ffurflenni a'ch dogfennau

Anfonwch y ffurflen hon ac unrhyw ddogfennau rydym wedi gofyn amdanynt yn yr amlen amgaeedig.

Rhan 17: Beth sy'n digwydd nesaf

- Os ydych yn gymwys i gael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth byddwn yn ysgrifennu atoch i ddweud sut mae eich budd-dal wedi cael ei gyfrifo a sut byddwch yn cael eich talu.
- Os nad ydych yn gymwys i gael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth byddwn yn ysgrifennu atoch i ddweud pam a beth i'w wneud os ydych yn anghytuno â'r penderfyniad.
- Os ydych wedi gwneud cais am Fudd-dal Tai neu ostyngiad mewn Treth Cyngor, bydd eich cyngor lleol yn cysylltu â chi.
- Ni fyddwn yn gallu delio â'ch cais ac efallai yn gorfod anfon eich ffurflen gais yn ôl atoch os
 - nad ydych wedi ateb yr holl gwestiynau ar y ffurflen hon sy'n berthnasol i chi a'ch partner, os oes gennych un, neu
 - os nad ydych wedi darparu yr holl ddogfennau rydym wedi gofyn amdanynt.

At ein defnydd

Datganiad

Cafodd yr atebion a roddais i'r cwestiynau ar y ffurflen hon eu darllen yn ôl i mi. Cytunaf eu bod yn gywir ac yn gyflawn hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred.

Llofnod yr hawliwr

Llofnod y swyddog cyfweld

Dyddiad

Enw'r swyddog cyfweld